



Mae hwn yn dempled Polisi Diogelu Data a Chadw Data i'w ddefnyddio gan aelodau Making Music. Mae ef wedi cael ei lunio yn unol â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a gellir ei ddefnyddio fel y mae - gan ychwanegu'ch manylion penodol yn unig (e.e. enw eich grŵp), neu drwy ei ddefnyddio fel man cychwyn a gwneud newidiadau er mwyn ei addasu ar gyfer eich gweithgareddau a'ch amgylchiadau penodol.

Mae'r templed yn dod [gyda nodiadau](#) – darllenwch y nodiadau a'r canllawiau yn ein [pecyn cymorth GDPR](#) cyn i chi ddefnyddio neu newid y polisi

Rydym yn gobeithio y bydd y templed adnoddau Making Music hwn yn ddefnyddiol i chi. Er y gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y cynnwys yn gywir ac yn ddiweddar, nid yw Making Music yn gwarantu, neu'n derbyn atebolrwydd neu gyfrifoldeb dros gyflawnder neu gywirdeb y cynnwys, neu dros unrhyw golled a allai godi oherwydd dibyniaeth ar y templed neu unrhyw wybodaeth sydd ynddo.

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ynghylch y canllawiau, [cysylltwch â ni](#).

Polisi Diogelu Data

Trosolwg

Manylion allweddol

- Polisi wedi'i baratoi gan: Iolo Thomas
- Wedi'i gymeradwyo gan Fwrdd/bwyllgor ar: 18/06/2018
- Dyddiad yr adolygiad nesaf: 18/06/2019

Cyflwyniad

Er mwyn iddo weithredu, mae'n rhaid casglu, cadw a defnyddio ffurfiau penodol o wybodaeth am unigolion.

Gall y rhain gynnwys aelodau, gweithwyr, contractwyr, cyflenwyr, gwirfoddolwyr, cynulleidfaoedd a chynulleidfaoedd posibl, cysylltiadau busnes a phobl eraill mae'r grŵp mewn cysylltiad â nhw neu y mae angen iddo gysylltu â nhw'n rheolaidd.

Mae'r polisi hwn yn egluro sut y gellir casglu, cadw a defnyddio'r data hwn er mwyn bodloni safonau diogelu data Côr Meibion Caernarfon ("Y Gymdeithas") a chydymffurfio â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

Pam ydy'r polisi hwn yn bwysig?

Mae'r polisi hwn yn sicrhau bod **Y Gymdeithas** yn gwneud fel a ganlyn:

- Diogelu hawliau'n haelodau, ein gwirfoddolwyr a'n cefnogwyr
- Cydymffurfio â chyfraith diogelu data a dilyn arfer da
- Diogelu'r grŵp rhag risgiau toriad data

Rolau a chyfrifoldebau

I bwy a beth y mae'r polisi hwn yn berthnasol?

Mae hwn yn berthnasol i *bawb* sy'n trin data ar ran **Y Gymdeithas** e.e.:

- Aelodau pwyllgor
- Gweithwyr a gwirfoddolwyr
- Aelodau
- Contractwyr/cyflenwyr trydydd parti

Mae'n berthnasol i'r holl ddata sy'n ymwneud ag unigolion y mae **Y Gymdeithas** yn ei gadw, gan gynnwys y canlynol:

- Enwau
- Cyfeiriadau e-bost
- Cyfeiriadau post
- Rhifau ffôn
- Unrhyw wybodaeth bersonol arall sy'n cael ei chadw (e.e. gwybodaeth ariannol)

Rolau a chyfrifoldebau

Y Gymdeithas yw'r Rheolwr Data a bydd yn penderfynu pa ddata sy'n cael ei gasglu a sut y bydd yn cael ei ddefnyddio. Iolo Thomas yw'r Swyddog Diogelu Data ar gyfer **Y Gymdeithas**. Ef, ar y cyd â'r Pwyllgor Gwaith sydd â'r cyfrifoldeb o sicrhau bod data'n cael ei gasglu a'i ddefnyddio gan **Y Gymdeithas** mewn modd sy'n ddiogel, yn deg ac yn dryloyw. Dylid anfon unrhyw gwestiynau ynghylch casglu neu ddefnyddio'r data at y Swyddog Diogelu Data.

Mae gan *bawb* sy'n gallu cael mynediad at y data fel rhan o **Y Gymdeithas** gyfrifoldeb i sicrhau eu bod yn ymlynu wrth y polisi hwn.

Mae'r Gymdeithas yn defnyddio Prosesyddion Data trydydd parti (e.e. **Gwefannau**) i brosesu data ar ei ran. Bydd Y Gymdeithas yn sicrhau bod yr holl Brosesyddion Data'n cydymffurfio â'r GDPR.

Egwyddorion diogelu data

a) Rydym yn prosesu data personol yn deg ac yn gyfreithlon mewn ffordd sy'n dryloyw

Bydd y **Gymdeithas** yn casglu data pan fo'n gyfreithlon ac yn ôl yr angen ar gyfer dibenion dilys y grŵp yn unig.

- Bydd enw a manylion cyswllt aelod yn cael eu casglu pan fydd ef neu hi'n ymuno â'r grŵp yn y lle cyntaf, a byddant yn cael eu defnyddio er mwyn cysylltu â'r aelod mewn perthynas â gweinyddiaeth aelodaeth grŵp a gweithgareddau. Gall data arall gael ei gasglu hefyd mewn perthynas â'i aelodaeth, gan gynnwys hanes ei daliadau tanysgrifio. Lle bo'n bosib, bydd y **Gymdeithas** yn gwneud y data hwn yn ddi-enw
 - Sail gyfreithlon ar gyfer prosesu'r data hwn: Contract (mae casglu a defnyddio'r data'n deg ac yn rhesymol mewn perthynas â'r Gymdeithas yn cwblhau tasgau disgwylidig fel rhan o aelodaeth yr unigolyn).
- Bydd enwau a manylion cyswllt gwirfoddolwyr, gweithwyr a chontractwyr yn cael eu casglu pan fyddant yn ymgymryd â rôl, a byddant yn cael eu defnyddio i gysylltu â hwy mewn perthynas â gweinyddiaeth sy'n ymwneud â'u rolau.

Gall rhagor o wybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth ariannol personol a gwybodaeth am gofnodion troseddol gael ei chasglu o dan amodau penodol lle bo'n gyfreithlon a lle bo angen (er mwyn prosesu taliad ar gyfer person neu er mwyn gwneud gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd).

- Sail gyfreithlon ar gyfer prosesu'r data hwn: Contract (mae casglu a defnyddio'r data'n deg ac yn rhesymol mewn perthynas â'r Gymdeithas yn cwblhau tasgau disgwylidig fel rhan o weithio gyda'r unigolion),
- Bydd enw a manylion cyswllt unigolyn yn cael eu casglu pan fydd yn cadw lle ar gyfer digwyddiad. Caiff y rhain eu defnyddio er mwyn cysylltu ag ef mewn perthynas â'i drefniadau cadw lle ac er mwyn caniatáu iddo gael mynediad at y digwyddiad.
 - Sail gyfreithlon ar gyfer prosesu'r data hwn: Contract (mae casglu a defnyddio'r data'n deg ac yn rhesymol mewn perthynas â'r Gymdeithas yn cwblhau tasgau disgwylidig fel rhan o gadw lle)
- Gall enw, manylion cyswllt a manylion eraill unigolyn gael eu casglu ar unrhyw adeg (gan gynnwys pan fydd yn prynu tocynnau neu mewn digwyddiad), gyda'i ganiatâd, er mwyn i'r Gymdeithas gyfathrebu ag ef mewn perthynas â gweithgareddau grŵp a'u hyrwyddo. Gweler 'Sut rydym yn ceisio caniatâd' isod.
 - Sail gyfreithlon ar gyfer prosesu'r data hwn: Contract (gweler 'Sut rydym yn ceisio caniatâd')

- Gall data ffugenwol neu ddiennw unigolyn (gan gynnwys data ymddygiadol, technolegol a daearyddol/rhanbarthol) gael ei gasglu drwy ddefnyddio 'cwcis' olrhain pan fydd ef yn cael mynediad at ein gwefan neu'n rhyngweithio â'n e-byst, er mwyn i ni fonitro a gwella'n heffeithiolrwydd ar y llwyfannau hyn. Gweler 'Cwcis ar wefan **y Gymdeithas** isod.
 - Sail gyfreithlon ar gyfer prosesu'r data hwn: Contract (gweler 'Sut rydym yn ceisio caniatâd')

b) Rydym yn casglu ac yn defnyddio data personol at ddibenion penodol, clir a chyfreithlon yn unig a byddwn yn defnyddio'r data at y dibenion penodol hynny'n unig.

Pan fydd yn casglu data, bydd y Gymdeithas bob amser yn darparu datganiad preifatrwydd clir a phenodol gan egluro wrth destun y data pam y mae angen y data ac at ba ddiben y bydd yn cael ei ddefnyddio.

c) Rydym yn sicrhau bod unrhyw ddata sy'n cael ei gasglu'n berthnasol ac nid yw'n ormodol

Ni fydd y Gymdeithas yn casglu neu'n cadw mwy o ddata nag sy'n angenrheidiol ar gyfer ei ddiben arfaethedig.

E.e. mae angen i ni gasglu rhifau ffôn gan aelodau er mwyn i ni allu cysylltu â nhw parthed gweinyddiaeth y grŵp, ond ni chesglir data am eu statws priodasol neu eu rhywioldeb, gan fod y data hwn yn ddiangen ac yn ormodol ar gyfer dibenion gweinyddu'r grŵp.

d) Rydym yn sicrhau bod data'n gywir ac yn gyfredol

Bydd **y Gymdeithas** yn gofyn i aelodau, gwirfoddolwyr a staff wirio a diweddarau eu data'n flynyddol. Bydd unrhyw unigolyn yn gallu diweddarau ei ddata ar unrhyw adeg drwy gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data.

e) Rydym yn sicrhau ni chedwir data am gyfnod hwy nag sydd ei angen

Ni fydd y Gymdeithas yn cadw cofnodion am gyfnod hwy nag sydd ei angen i fodloni'r dibenion arfaethedig y'u casglwyd ar eu cyfer (oni bai bod gofynion cyfreithlon i gadw'r cofnodion).

Adolygir y dull cadw'r data a'i ddefnydd arfaethedig yn unol â pholisi cadw data'r Gymdeithas. Pan na fydd y defnydd arfaethedig yn berthnasol mwyach (e.e. manylion cyswllt ar gyfer aelod sydd wedi gadael y grŵp), bydd y data'n cael ei ddileu o fewn cyfnod rhesymol.

f) Rydym yn cadw data personol yn ddiogel

Bydd y Gymdeithas yn sicrhau bod data sy'n cael ei gadw gennym yn cael ei gadw'n ddiogel.

- Bydd data sy'n cael ei gadw'n electronig yn cael ei gadw'n ddiogel ac wedi'i ddiogelu gan gyfrinair
- Ailosodir cyfrineiriau ar gyfer ffeiliau data electronig bob tro y bydd unigolyn sydd â mynediad at ddata'n gadael ei rôl/swydd
- Bydd data sy'n cael ei gadw'n ffisegol (e.e. ffurflenni aelodaeth neu daflenni cofrestru e-bost) yn cael ei gadw mewn cwpwrdd wedi'i gloi
- Dylai'r Swyddog Diogelu Data gasglu allweddï ar gyfer cloeau sy'n diogelu ffeiliau data ffisegol oddi wrth unrhyw unigolyn sydd â mynediad os bydd ef yn gadael ei rôl/swydd. Dylid newid y codau ar gyfer cloeau cyfunrhif bob tro y bydd unigolyn sydd â mynediad yn gadael ei rôl/swydd
- Rhoddir mynediad at ddata i ymddiriedolwyr/aelodau'r pwyllgor/contractwyr perthnasol yn unig lle bo angen er mwyn rheoli'r grŵp. Bydd y Swyddog Diogelu Data'n penderfynu ar ba sefyllfaoedd y mae hyn yn berthnasol iddynt ac yn cadw rhestr o'r rhai sydd â mynediad at ddata

g) Trosglwyddo data i wledydd y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd

Ni fydd y Gymdeithas yn trosglwyddo data i wledydd y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA), oni bai bod gan yr wlad ddiogelwch digonol ar gyfer hawliau preifatrwydd data'r unigolyn.

Hawliau'r unigolyn

Pan fydd y Gymdeithas yn casglu, yn cadw ac yn defnyddio data personol unigolyn, bydd gan yr unigolyn yr hawliau canlynol dros y data hwnnw. Bydd y Gymdeithas yn sicrhau bod ei brosesau data'n cydymffurfio â'r hawliau hynny ac yn gwneud pob ymdrech resymol i fodloni gofynion unigolyn mewn perthynas â'r hawliau hynny.

Hawliau unigolyn

- *Yr hawl i gael eich hysbysu:* pan fydd y Gymdeithas yn casglu data, bydd yn darparu datganiad preifatrwydd clir a phenodol gan egluro pam mae'r data'n cael ei gasglu a sut bydd ef yn cael ei ddefnyddio.
- *Yr hawl i gael mynediad:* gall unigolion ofyn i weld y data y mae'r Gymdeithas yn ei gadw amdanynt a chadarnhad o sut mae'n cael ei ddefnyddio. Dylid anfon ceisiadau'n ysgrifenedig at y Swyddog Diogelu Data a chydymffurfir â'r rhain am ddim o fewn mis. Lle bydd ceisiadau'n gymhleth neu'n niferus, gellir ymestyn hyn i ddau fis
- *Yr hawl i gywiro:* gall unigolion ddiweddarau eu data pan fo'n anghywir neu'n anghyflawn. Bydd y Gymdeithas yn gofyn i aelodau, staff a chontractwyr wirio a diweddarau eu data'n flynyddol. Bydd unrhyw geisiadau ar gyfer diweddarau data'n cael eu prosesu o fewn mis.
- *Yr hawl i wrthwynebu:* gall unigolion wrthwynebu'r defnydd o'u data at ddiben penodol. Bydd y Gymdeithas bob amser yn darparu ffordd i unigolyn dynnu ei

ganiatâd ar gyfer yr holl ohebiaeth farchnata. Pan fyddwn yn derbyn cais i beidio â defnyddio data, byddwn yn cydymffurfio oni bai bod gennym reswm cyfreithiol i ddefnyddio'r data at ddibenion cyfreithlon neu rwymedigaeth gytundebol.

- *Yr hawl i ddileu:* gall unigolion ofyn i'r holl ddata sy'n cael ei gadw amdanynt gael ei ddileu. Bydd polisi cadw data'r Gymdeithas yn sicrhau na fydd data'n cael ei gadw am gyfnod hwy nag sydd ei angen yn resymol mewn perthynas â'r diben y'i casglwyd ar ei gyfer yn wreiddiol. Os cyflwynir cais am ddileu data, byddwn yn cydymffurfio â'r cais oni bai bod un o'r canlynol yn berthnasol:
- Mae rheswm cyfreithiol dros gadw a defnyddio'r data at ddibenion cyfreithlon neu ar gyfer rhwymedigaeth gytundebol.
- Mae gofyniad cyfreithiol i gadw'r data.

Yr hawl i gyfyngu prosesu: gall unigolion geisio 'cyfyngu' ar eu data personol – hynny yw, bydd y data'n cael ei gadw ond heb ei brosesu'n ymhellach (e.e. os ydynt wedi herio cywirdeb unrhyw ran o'u data, bydd y Gymdeithas yn cyfyngu ar y data wrth iddo gael ei wirio).

Er ei fod yn annhebygol o fod yn berthnasol i'r data sy'n cael ei brosesu gan y Gymdeithas, byddwn yn sicrhau y cydymffurfir â hawliau sy'n ymwneud â gludadwyedd a gwneud penderfyniadau'n awtomataidd (gan gynnwys proffilio) lle bo'n briodol.

Cysylltiad rhwng aelodau

Rydym yn rhannu data aelodau gydag aelodau eraill gyda chaniatâd blaenorol y gwrthrych yn unig

Fel sefydliad aelodaeth, mae'r Gymdeithas yn annog aelodau i gyfathrebu â'i gilydd.

Er mwyn hwyluso hyn:

- Gall aelodau geisio data cyswllt personol aelodau eraill drwy ysgrifennu at y Swyddog Diogelu Data neu'r Ysgrifennydd Aelodaeth. Rhoddir y manylion hyn, ar yr amod eu bod yn cael eu casglu at ddiben cysylltu â'r gwrthrych (e.e. cyfeiriad e-bost ac nid data ariannol neu iechyd) a bod y gwrthrych wedi rhoi caniatâd i'w ddata gael ei rannu gydag aelodau eraill yn y modd hwn

Sut rydym yn ceisio caniatâd

Bydd y Gymdeithas yn casglu data'n rheolaidd gan gefnogwyr sydd wedi rhoi eu caniatâd at ddibenion marchnata. Mae hyn yn cynnwys cysylltu â hwy i hyrwyddo perfformiadau, rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am newyddion grwpiau, ymgyrchoedd codi arian a gweithgareddau grŵp eraill.

Ar unrhyw adeg y bydd data'n cael ei gasglu at y diben hwn, byddwn yn darparu'r canlynol:

- Ffordd i ddefnyddwyr ddangos eu caniatâd cadarnhaol a gweithredol i dderbyn y cyfathrebiadau hyn (e.e. 'blwch ticio')

- Eglurhad clir a phenodol o'r hyn y bydd y data'n cael ei ddefnyddio ar ei gyfer (e.e. 'Ticiwch y blwch hwn os hoffech i'r Gymdeithas anfon diweddariadau atoch drwy e-byst gyda manylion am ein digwyddiadau sydd ar ddod, gweithgareddau codi arian a chyfleoedd i chi gymryd rhan')

Bydd y data a gesglir yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd a nodwyd ac ar gyfer y diben a roddwyd caniatâd iddo (e.e. ni fyddwn yn defnyddio data e-bost er mwyn marchnata cynnyrch trydydd parti oni bai bod caniatâd clir wedi cael ei roi i ni wneud felly).

Bydd pob cyfathrebiad marchnata'n cynnwys modd i'r derbynnydd dynnu ei ganiatâd (e.e. dolen 'datdanysgrifio' mewn e-bost). Bydd ceisiadau datdanysgrifio megis y rhain yn cael eu prosesu o fewn 14 o ddiwrnodau.

Cwcis ar wefan **Côr Meibion Caernarfon**

Fel mae'n digwydd NID yw'r Gymdeithas yn bresennol yn defnyddio Cwcis ond os y gwnawn i'r dyfodol bydd y canlynol yn berthnasol:

Ystyr cwci yw ffeil destun fach sy'n cael ei lawrlwytho ar 'gyfarpar terfynol' (e.e. cyfrifiadur neu ffôn clyfar) pan fydd defnyddiwr yn cael mynediad at wefan. Mae'n galluogi'r wefan i adnabod dyfais y defnyddiwr hwnnw a chadw rhai gwybodaeth am ddewisiadau'r defnyddiwr neu ei weithrediadau yn y gorffennol.

Mae'r Gymdeithas yn defnyddio cwcis ar ein gwefan [www.cormeibioncaernarfon.org] er mwyn monitro a chofnodi eu gweithgarwch. Mae hyn yn ein galluogi i wella profiad defnyddwyr o'n gwefan gan alluogi cyflwr 'mewngofnodi', er enghraifft, a chan rhoi mewnwelediad defnyddiol i ni am sut y mae pob defnyddiwr yn ymgysylltu â'r wefan.

Byddwn yn rhoi blwch arddangos ar waith ar [www.cormeibioncaernarfon.org] a fydd yn actifadu bob tro y bydd defnyddiwr yn ymweld â'r wefan. Bydd hwn yn ei alluogi i glicio er mwyn rhoi caniatâd (neu beidio â rhoi caniatâd) i barhau gyda'r cwcis wedi'u galluogi, neu i anwybyddu'r neges a pharhau i bori (h.y. rhoi caniatâd ymhlyg).

Bydd ef hefyd yn cynnwys dolen i'n Polisi Preifatrwydd sy'n amlinellu pa gwcis penodol sy'n cael eu defnyddio a sut y gellir eu hanalluogi ar y porwyr mwyaf cyffredin.

Polisi cadw data

Trosolwg

Cyflwyniad

Mae'r polisi hwn yn amlinellu sut y bydd y Gymdeithas yn ymdrin â chadw data ac yn gosod prosesau i sicrhau nid ydym yn cadw data am gyfnod hwy nag sydd ei angen.

Mae'n rhan o Bolisi Diogelu Data y Gymdeithas.

Rolau a chyfrifoldebau

Y Gymdeithas yw'r Rheolwr Data a bydd ef yn penderfynu pa ddata sy'n cael ei gasglu a'i gadw, a sut y bydd yn cael ei ddefnyddio. **Iolo Thomas** yw'r Swyddog Diogelu Data ar gyfer **Y Gymdeithas**. Ef, ar y cyd â'r Pwyllgor Gwaith, sydd â'r cyfrifoldeb o sicrhau bod data'n cael ei gasglu a'i ddefnyddio gan y Gymdeithas mewn modd sy'n ddiogel ac yn deg. Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau ynghylch cadw data neu ddefnyddio data at y Swyddog Diogelu Data.

Adolygiad Data Rheolaidd

Cynhelir adolygiad rheolaidd o'r holl ddata er mwyn penderfynu a oes gan y Gymdeithas reswm da o hyd dros gadw a defnyddio'r data sy'n cael ei gadw ar yr adeg y caiff yr adolygiad ei gynnal.

Fel arfer, cynhelir adolygiad data bob dwy flynedd a heb fod yn hwyrach na 27 o fisoedd calendr ar ôl i'r adolygiad diwethaf gael ei gynnal. **Cynhelir** yr adolygiad cyntaf ar 18 Mehefin 2019.

Data i'w adolygu

- Mae'r Gymdeithas yn cadw data ar ddogfennau digidol (e.e. taenlenni) sy'n cael eu cadw ar ddyfeisiau personol gan aelodau'r pwyllgor.
- Data sy'n cael ei gadw ar wasanaethau trydydd parti ar-lein (e.e. **Google Drive**.)
- Data ffisegol sy'n cael ei gadw mewn tai aelodau'r pwyllgor

Pwy fydd yn cynnal yr adolygiad

Cynhelir yr adolygiad gan y Swyddog Diogelu Data gydag aelodau eraill o'r pwyllgor a fydd yn cael eu penodi pan fydd yr adolygiad yn cael ei gynnal.

Sut bydd data'n cael ei ddileu

- Bydd data ffisegol yn cael ei ddinistrio'n ddiogel, gan gynnwys drwy rwygo.
- Bydd pob ymdrech resymol ac ymarferol yn cael ei gwneud i ddileu data sy'n cael ei gadw'n ddigidol.
 - Rhoddir blaenoriaeth i unrhyw sefyllfaoedd lle mae data'n cael ei gadw mewn rhestrau actif (e.e. lle gallai gael ei ddefnyddio) ac i ddata sensitif.
 - Lle bydd dileu'r data yn gofyn am ddileu data arall y mae gennym reswm cyfreithlon a dilys i'w gadw (e.e. mewn hen e-byst), gall y data gael ei gadw'n ddiogel ond ni chaiff ei ddefnyddio.

Meini Prawf

Bydd y meini prawf canlynol yn cael eu defnyddio i benderfynu ar ba ddata fydd yn cael ei gadw a pha ddata fydd yn cael ei ddileu.

Cwestiwn	Camau gweithredu
----------	------------------

	√	X
Ydy'r data'n cael ei gadw'n ddiogel?	Ni does angen camau gweithredu	Diweddarau protocol cadw data'n unol â pholisi Diogelu Data
Ydy'r rheswm gwreiddiol dros gadw'r data'n gymwys o hyd?	Parhau i'w ddefnyddio	Dileu'r data neu gael gwared ag ef
Ydy'r data'n cael ei ddefnyddio at ei ddiben gwreiddiol?	Parhau i'w ddefnyddio	Naill ai dileu'r data, neu gael gwared ag ef, neu gofnodi'r sail gyfreithlon ar gyfer ei ddefnyddio a cheisio caniatâd os oes angen
Oes gofyn statudol i gadw'r data?	Cadw'r data o leiaf tan nad yw'r gofyn statudol yn gymwys mwyach	Dileu'r data, neu gael gwared ag ef, oni bai bod gennym reswm dros ei gadw yn ôl meini prawf eraill.
Ydy'r data'n gywir?	Parhau i'w ddefnyddio	Gofyn i'r gwrthrych gadarnhau/diweddarau ei fanylion
Lle bo'n briodol, oes gennym ganiatâd i ddefnyddio'r data? Gall y caniatâd hwn fod wedi cael ei ymhlygu drwy ddefnydd ac ymrwymiad gan yr unigolyn yn y gorffennol	Parhau i'w ddefnyddio	Ceisio caniatâd
Ydy hi'n bosibl i wneud y data'n ddi-enw?	Gwneud y data'n ddi-enw	Parhau i'w ddefnyddio

Gofynion statudol

Gall y data sy'n cael ei gadw gan y Gymdeithas gael ei gadw ar sail gofynion statudol ar gyfer cadw data ar wahân i reoliadau diogelu data. Gall hyn gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Cofnodion datganiadau Rhodd Cymorth
- Manylion taliadau sydd wedi'u talu a'u derbyn (e.e. mewn cyfrifon banc a chofnodion cyfrifyddu)
- Cofnodion cyfarfodydd ymddiriedolwyr
- Contractau a chytundebau â chyflenwyr/chwsmeriaid
- Manylion yswiriant
- Cofnodion trethi a chyflogaeth

Gweithdrefnau cadw data eraill

Data aelodau

- Pan fydd aelod yn gadael y Gymdeithas a bydd yr holl dasgau gweinyddol sy'n ymwneud â'i aelodaeth wedi cael eu cwblhau, bydd unrhyw ddata amdano sy'n cael ei gadw ac a allai fod yn sensitif yn cael ei ddileu.
- Oni bai bod caniatâd wedi cael ei roi, bydd data yn yr holl restrau bostio e-bost yn cael ei ddileu
- Bydd yr holl ddata arall yn cael ei gadw'n ddiogel ac yn cael ei adolygu fel rhan o'r adolygiad dwy flynedd nesaf

Data rhestrau bostio

- Os bydd unigolyn yn dewis peidio â bod ar restr bostio, bydd ei ddata'n cael ei ddileu cyn gynted â phosib.
- Bydd yr holl ddata arall yn cael ei gadw'n ddiogel ac yn cael ei adolygu fel rhan o'r adolygiad dwy flynedd nesaf

Data gwirfoddolwyr a phobl sy'n gweithio ar eu liwt eu hunain

- Pan fydd gwirfoddolwr neu rywun sy'n gweithio ar ei liwt ei hun yn peidio â gweithio gyda'r Gymdeithas a bydd yr holl dasgau gweinyddol sy'n ymwneud â'i waith wedi cael eu cwblhau, bydd unrhyw ddata amdano sy'n cael ei gadw ac a allai fod yn sensitif yn cael ei ddileu – gall hyn gynnwys manylion banc neu ddata meddygol
- Oni bai bod caniatâd wedi cael ei roi, bydd data yn yr holl restrau bostio e-bost yn cael ei ddileu
- Bydd yr holl ddata arall yn cael ei gadw'n ddiogel ac yn cael ei adolygu fel rhan o'r adolygiad dwy flynedd nesaf

Data arall

- Bydd yr holl ddata arall yn cael ei gynnwys mewn adolygiad dwy flynedd rheolaidd.